# Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person

## DYNODIAD Y SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Dirprwy Bennaeth |
| **Gradd:** | Arweinyddiaeth |
| **Cyfarwyddiaeth:** | Addysg |
| **Is-adran:** | Ysgolion |
| **Lleoliad:** | Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert |
| **Yn atebol i'r:** | Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert |

## CYFLWYNIAD

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ategu'r safonau, y gwerthoedd a'r agweddau a nodwyd yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (2018). Ochr yn ochr â disgwyliadau arweinyddiaeth ysgol a ddiffinnir yng nghontract Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, bydd y Dirprwy Bennaeth yn cyd-fynd â'r gwerthoedd a'r tueddiadau cyffredinol a ddiffiniwyd yn y Safonau Proffesiynol ac yn dangos y rhain a'u hyrwyddo:

1) Hawl broffesiynol
2) Yr iaith Gymraeg a'i diwylliant
3) Hawliau dysgwyr
4) Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
5) Y dysgwr proffesiynol
6) Rôl y system

Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd ymgymryd â chyfrifoldebau proffesiynol Dirprwy Bennaeth fel y nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

## DIBEN Y SWYDD

O dan oruchwyliaeth y Pennaeth, darparu cyfraniad sylweddol at ddatblygiad gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, mewn partneriaeth â holl randdeiliaid yr ysgol, gan roi'r arweinyddiaeth broffesiynol sy'n ofynnol i alluogi'r holl staff i gefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn. Dylid cyflawni hyn yn unol â dysgeidiaeth yr Eglwys Gatholig, polisïau'r esgobaeth a'r corff llywodraethu, a'r blaenoriaethau a nodir mewn strategaethau addysg lleol a chenedlaethol.

Dirprwyo ar gyfer y Pennaeth yn ôl y galw.

## MEYSYDD ALLWEDDOL

**Addysgeg**

| | |
|---|---|
| 1. | Bod yn atebol am gefnogi addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu'r pedwar diben ar gyfer dysgwyr a chyflawni'r gorau iddynt o ran llesiant, safonau a chynnydd. |
| 2. | Datblygu strategaethau, strwythurau a systemau, gyda holl randdeiliaid yr ysgol, i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol tuag at wireddu gweledigaeth gyffredin yr ysgol a chyflawni gwelliant parhaus yn yr ysgol, i alluogi cyflawni'r pedwar diben dysgu, gan ystyried amgylchiadau, polisïau a mentrau cenedlaethol a lleol. |
| 3. | Ysgogi a gweithio gydag eraill i greu a chynnal ethos ysgol ac amgylchedd dysgu sy'n ffafriol i ddysgu effeithiol. |
| 4. | Sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr yn gyson drwy fireinio a datblygu addysgu yn gynyddol a dylanwadu ar ddysgwyr. |
| 5. | Sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei drefnu a'i gyflwyno a gweithredu amrywiaeth o ddulliau addysgeg yn yr ysgol, i gefnogi addysgu a dysgu o ansawdd uchel a chyflwyno'r cwricwlwm yng Nghymru. |
| 6. | Sicrhau ffocws cyson a pharhaus ar draws yr ysgol ar lesiant, profiad a chyflawniad pob dysgwr, gan sefydlu diwylliant sy'n gwerthfawrogi barn dysgwyr wrth lywio pob cam dysgu a phrofiad ysgol. |
| 7. | Datblygu polisïau ac arferion, ar y cyd â'r rhanddeiliaid perthnasol, sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac yn datblygu sgiliau dwyieithog dysgwyr fel y bo'n briodol. |
| 8. | Datblygu'r pedwar diben ar gyfer dysgu drwy greu strwythurau a systemau sy'n cefnogi cynllunio ac yn pwysleisio disgyblaethau gwahanol feysydd dysgu yn eu cyd-destun, i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol iawn. |
| 9. | Datblygu a gweithredu systemau effeithiol i fonitro a gwerthuso effaith profiadau dysgu a chynnydd dysgwyr i sicrhau gwelliant parhaus. |
| 10. | Dangos atebolrwydd am lesiant a deilliannau dysgwyr drwy weithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i sicrhau bod llesiant a chyflawniad pob dysgwr yn cael eu gwerthfawrogi ac yn amlwg drwy'r ysgol. |
| 11. | Datblygu strategaethau, strwythurau, polisïau a systemau cynhwysol, ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, sy'n galluogi pob dysgwr i gael mynediad llawn at gyfleoedd i gyflawni a sicrhau bod eu hanghenion dysgu unigol yn cael eu diwallu. |
| 12. | Hyrwyddo a sicrhau tegwch mewn llwybrau dysgu academaidd, galwedigaethol a thrwy brofiad. |
| 13. | Datblygu a mynegi adroddiad cydlynol, dealladwy a chywir o berfformiad yr ysgol i amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr, gan sicrhau bod hyn yn ymgorffori llesiant a chynnydd dysgwyr. |
| 14. | Rheoli'r gwaith o gyfathrebu a gweithredu effeithiol argymhellion sy'n deillio o adroddiadau yn effeithiol, gan gynnwys deilliannau hunanwerthuso'r ysgol ac arolygiad allanol gan Estyn a thimau Esgobaethol, er mwyn ysgogi a chynnal gwelliant yr ysgol. |
| 15. | Cydweithio â holl randdeiliaid yr ysgol i adeiladu hinsawdd a diwylliant dysgu yn yr ysgol sy'n adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth cymuned yr ysgol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. |

** Cyfrannu, fel y bo'n briodol, at yr addysgu yn yr ysgol.*

**Cydweithredu**

| | |
|---|---|
| 16. | Sefydlu hinsawdd o gydgefnogaeth a chydweithredu effeithiol yn yr ysgol a thu hwnt iddi er mwyn datblygu, gwella a rhannu addysgeg effeithiol. |
| 17. | Gweithio gyda'r Pennaeth i sefydlu diwylliant o ddysgu cydweithredol yn yr ysgol ac ymgysylltu'n weithredol â sefydliadau addysgol eraill, yn enwedig ysgolion Catholig eraill, i adeiladu cymunedau dysgu effeithiol. |
| 18. | Hyrwyddo a hwyluso cydweithredu effeithiol â chyflogwyr, busnes, llywodraeth, yr esgobaeth a gweithwyr addysgol proffesiynol eraill i annog dulliau a chymorth arloesol a gwella arfer bob dydd y sefydliad dysgu. |
| 19. | Sefydlu ac adeiladu partneriaethau yn yr ysgol ac ar draws ysgolion i rannu arfer gorau a chefnogi gwelliant yr ysgol er budd pawb o ran cymorth o ansawdd uchel a hyblyg i ddatblygu arfer proffesiynol. |
| 20. | Gweithio gyda’r corff llywodraethu, fel ei fod yn gallu bodoli ei gyfrifoldebau esgobaethol a chenedlaethol ar gyfer cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol a gwella'r ysgol yn barhaus, o fewn ei chyd-destun Cristnogol. |
| 21. | Croesawu llywodraethu cryf a gweithio gyda'r Pennaeth i fynd ati i gefnogi'r corff llywodraethu i ddeall ei rôl a chyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. |
| 22. | Sefydlu perthynas effeithiol ac agored â rhieni, gofalwyr, yr eglwys leol a'r gymuned leol ehangach i'w cynnwys yn weithredol o ran llesiant, profiad a chynnydd dysgwyr a sicrhau bod yr ysgol yn chwarae rhan ganolog yn y gymuned. |
| 23. | Cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr awdurdod esgobaethol a'r awdurdod lleol, i ddarparu ar gyfer llesiant dysgwyr a'u teuluoedd. |
| 24. | Datblygu ymrwymiad ar draws yr ysgol i welliant parhaus a datblygu cynaliadwy drwy hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd cydweithredol i'r holl staff, gan nodi meysydd o bryder yn gywir a chymryd camau priodol i sicrhau gwell perfformiad. |

**Dysgu Proffesiynol**

| | |
|---|---|
| 25. | Creu amgylchedd lle mae dysgu proffesiynol yn cael ei werthfawrogi, yn cael effaith ar addysgeg ac yn cefnogi twf proffesiynol ar draws cymuned ddysgu yn yr ysgol a thu hwnt iddi. |
| 26. | Sicrhau dysgu proffesiynol parhaus a phenodol yr holl staff, gan gynnwys eich hun, gan fframio twf proffesiynol o fewn ymarfer addysgeg, profiadau a deilliannau dysgwyr. |
| 27. | Gweithio gyda'r Pennaeth i ddatblygu diwylliant sy'n cefnogi twf ac arweinyddiaeth ar bob lefel drwy ddatblygu a meithrin potensial arweinyddiaeth mewn eraill, a chyfrannu at gyfleoedd sydd ar gael, i adeiladu capasiti arweinyddiaeth yr ysgol, yn enwedig yn y sector ysgolion Catholig. |
| 28. | Sefydlu rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol sy'n galluogi'r ysgol i chwarae rhan weithredol yn y gymuned addysg ehangach, gan gyfrannu at hyfforddi athrawon y dyfodol ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda dysgwyr a datblygu ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymarfer. |

**Arloesedd**

| | |
|---|---|
| 29. | Cydlynu arloesedd gyda'r holl randdeiliaid perthnasol, i sicrhau bod yr ysgol yn croesawu dulliau arloesi sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ohonynt, gan gyd-fynd â'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru. |

| | |
|---|---|
| 30. | Sefydlu rhaglen hirdymor o ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran arloesi sy'n ceisio ateb heriau, rheoli newid a datblygu dysgu'n effeithiol er mwyn gwella llesiant a deilliannau. |
| 31. | Gweithio gyda'r Pennaeth i greu diwylliant lle mae arbenigedd, profiad ac arfer addysgegol yn cael ei ddatblygu'n barhaus a'i rannu mewn ac ar draws ysgolion. |
| 32. | Gweithio gyda'r Pennaeth i ddatblygu diwylliant lle defnyddir tystiolaeth sy'n deillio o arfer arloesol i werthuso effaith newidiadau, yng nghymuned yr ysgol a thu hwnt iddi. |

**Arweinyddiaeth**

| | |
|---|---|
| 33. | Gweithio gyda chymuned yr ysgol i ddod â chydlyniad, eglurder ac ymrwymiad a rennir i wireddu gweledigaeth addysgegol yr Eglwys Gatholig er budd dysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach yng Nghymru. |
| 34. | Gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod cynllunio strategol yn adlewyrchu amrywiaeth, gwerthoedd, profiad a chyd-destun yr ysgol a'r gymuned yn gyffredinol. |
| 35. | Sicrhau, gyda chefnogaeth a mewnbwn y Pennaeth a'r corff llywodraethu, bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r holl bolisïau mewnol, lleol, esgobaethol a chenedlaethol. |
| 36. | Gweithio gyda'r Pennaeth i greu diwylliant lle gall eraill dyfu'n broffesiynol. |
| 37. | Datblygu a meithrin potensial arweinyddiaeth mewn eraill ar bob lefel, i adeiladu capasiti arweinyddiaeth yr ysgol ac ysbrydoli arweinwyr y dyfodol. |
| 38. | Datblygu, grymuso a chynnal unigolion a thimau effeithiol drwy arweinyddiaeth wasgaredig, gan annog arfer myfyriol. |
| 39. | Adeiladu rhwydweithiau effeithiol i rannu gwybodaeth broffesiynol, ymchwil ac arbenigedd ymarferol sy'n galluogi'r ysgol ac ysgolion eraill i gael budd drwy gydweithio. |

**Rheoli'r ysgol**

| | |
|---|---|
| 40. | Gweithio gyda'r Pennaeth a'r rhanddeiliaid perthnasol i lunio a gweithredu cynlluniau a pholisïau gwella clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu'r ysgol a'i chyfleusterau. |
| 41. | Gyda chefnogaeth y Pennaeth a'r corff llywodraethu, rheoli a threfnu amgylchedd yr ysgol yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y cwricwlwm a rheoliadau iechyd a diogelwch. |
| 42. | Gwneud defnydd effeithiol o'r cymorth a'r her a ddarperir gan yr esgobaeth, yr awdurdod lleol, y consortiwm rhanbarthol a chyrff perthnasol eraill. |
| 43. | Cynorthwyo'r Pennaeth a'r corff llywodraethu i reoli adnoddau ariannol a dynol yr ysgol yn effeithiol ac yn effeithlon er mwyn cyflawni blaenoriaethau a nodau addysg yr ysgol. |
| 44. | Monitro, gwerthuso ac adolygu, ar y cyd â'r Pennaeth a'r corff llywodraethu, yr amrywiaeth, ansawdd a defnydd o'r holl adnoddau sydd ar gael i wella ansawdd addysg pob dysgwr ac i sicrhau gwerth am arian. |
| 45. | Gweithio gyda'r Pennaeth a rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n sicrhau amgylchedd diogel, pwyllog a threfnus i'r holl ddysgwyr a staff a sicrhau safonau uchel o ymddygiad a phresenoldeb, gan arwain ar amodau dysgu llwyddiannus. |

## MANYLEB Y PERSON

**Rh = Meini prawf llunio'r rhestr fer**

**Nodwch, gall y meini prawf ar gyfer llunio'r rhestr fer hefyd gael eu profi yn ystod y cam asesu**

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CATHOLIGRWYDD | Catholig mewn gair a gweithred (Rh)<br><br>Gallu mynegi gweledigaeth ar gyfer addysg Gatholig yng Nghymru (Rh)<br><br>Dealltwriaeth o natur a statws Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd mewn ysgolion Catholig (Rh)<br><br>Cydnabod y sail ddeddfwriaethol ar gyfer ysgolion Catholig a rôl y Corff Llywodraethu | Ymgymryd â chyfleoedd datblygu proffesiynol ar Addysg Gatholig |
| CYMHWYSTER | Statws athro cymwysedig (Rh)<br><br>Gradd (Rh)<br><br>Cofrestriad cyfredol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg | Cymwysterau pellach e.e. CPCP a/neu astudiaethau proffesiynol sy'n berthnasol i'r ystod oedran. (Rh) |
| GWYBODAETH A PHROFIAD | Profiad sylweddol diweddar fel uwch arweinydd ysgol mewn Ysgol Gynradd (Rh)<br><br>Profiad amlwg o arweinyddiaeth e.e. arwain pwnc/cyfnod (Rh)<br><br>Gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun addysgol presennol Cymru a Chenhadaeth ein Cenedl (Rh)<br><br>Gwybodaeth am arfer gorau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc<br><br>Profiad amlwg o fonitro, gwerthuso ac adolygu perfformiad er mwyn codi cyflawniad i bob dysgwr.<br><br>Y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n gyfystyr ag addysgu a dysgu rhagorol a sut i'w gweithredu (Rh)<br><br>Gwybodaeth am strategaethau a gweithdrefnau effeithiol sy'n ymwneud â dysgu proffesiynol ac adolygu perfformiad.<br><br>Profiad llwyddiannus o reoli newid | Profiad o reoli iechyd a diogelwch<br><br>Profiad o feithrin perthnasoedd a gweithio'n effeithiol gyda llywodraethwyr |

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| | Profiad o feithrin perthynas effeithiol ag amrywiaeth o randdeiliaid ysgol, gan gynnwys rhieni a'r gymuned ehangach (Rh) | |
| SGILIAU | Gallu mynegi a chyfleu gweledigaeth glir o ddarpariaeth addysgol o ansawdd uchel ar gyfer yr ysgol (Rh)<br><br>Gallu arwain, rheoli ac ysgogi staff a disgyblion i gyrraedd safonau uchel<br><br>Profiad llwyddiannus o ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Gallu adeiladu rhwydwaith cryf o berthnasoedd a phartneriaethau cydweithredol ag ysgolion eraill, proffesiynau addysg a sefydliadau allanol priodol, gan gynnwys yr esgobaeth (Rh)<br><br>Gallu rhoi arweinyddiaeth mewn datblygiad ysbrydol ac addoli<br><br>Gallu cyfathrebu a datblygu cysylltiadau'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd. (Rh)<br><br>Lefel uchel o sgiliau personol wrth ddefnyddio a chymhwyso technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)<br><br>Sgiliau trefnu da a'r gallu i ddirprwyo. | Profiad o gydweithio ag ysgolion Cristnogol eraill |
| NODWEDDION PERSONOL | Gallu bod yn gydnerth o dan bwysau a pharhau'n gadarnhaol ac yn frwdfrydig.<br><br>Ymrwymiad i ddysgu proffesiynol parhaus ar gyfer eich hun ac eraill<br><br>Ymrwymiad i hyrwyddo llesiant pob aelod o gymuned yr ysgol<br><br>Ymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant | |

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| | Gallu dangos crebwyll cadarn a chytbwys, pendantrwydd a hyblygrwydd<br><br>Uniondeb, teyrngarwch a sensitifrwydd | |
| GOFYNION ERAILL | Mae'r swydd hon wedi'i heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) ac mae'n ofynnol i'r holl ymgeiswyr ddatgelu'r holl euogfarnau a rhybuddion sydd wedi darfod o dan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 oni bai eu bod yn euogfarn / rhybudd "warchodedig" o dan y diwygiadau a wnaed i Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1973 (yn 2013) ac, felly, heb fod yn destun datgelu. Bydd proses sgrinio gynhwysfawr yn cael ei chynnal ar bob ymgeisydd llwyddiannus. Bydd hyn yn cynnwys gwiriad manwl gyda gwiriad o'r rhestr wahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) | |